Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Canllaw
# gan Llenyddiaeth Cymru

# Rhestr Awduron Cymru – sut i ysgrifennu bywgraffiad da

Mae Rhestr Awduron Cymru yn adnodd ar-lein sy'n hyrwyddo awduron a hwyluswyr ysgrifennu creadigol Cymru. Mae'n cynnwys proffiliau sy'n cael eu creu a'u diweddaru gan yr unigolion eu hunain, a hynny yn eu hiaith ddewisol (Cymraeg neu Saesneg). Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau o ysgrifennu bywgraffiad awdur clir, cryno a chofiadwy ar gyfer eich proffil ar Rhestr Awduron Cymru.

## Beth yw bywgraffiad awdur?

Mae bywgraffiad awdur yn rhoi trosolwg cyflym a chryno ohonoch chi a'ch ysgrifennu, eich profiad proffesiynol ac uchafbwyntiau eich gyrfa fel awdur hyd yn hyn. Efallai mai eich bywgraffiad yw'r peth cyntaf y mae rhywun yn ei weld amdanoch chi.

Mae'n debyg y bydd angen bywgraffiad awdur arnoch pan fyddwch chi'n cyflwyno gwaith i asiant neu gyhoeddwr, yn cyhoeddi stori mewn cylchgrawn, yn cyhoeddi llyfr, yn arwain prosiect neu weithdy, neu pan fyddwch chi'n derbyn gwobr, felly mae'n werth treulio amser i lunio un da.

Hyd yn oed i awduron profiadol, gall bywgraffiad awdur fod yn anodd ei ysgrifennu. Beth ddylech chi ei gynnwys? Faint o fanylion sy'n briodol?

## Ysgrifennwch yn y trydydd person

Ysgrifennwch yn y trydydd person. Mae'n gwneud i chi swnio'n fwy proffesiynol. Er enghraifft, yn lle, “Rydw i wedi cyhoeddi straeon yn…”, ystyriwch ysgrifennu “Mae Jane Jones wedi cyhoeddi straeon yn…”

## Defnyddiwch iaith glir a syml

Mae angen i chi gyfleu'n glir pwy ydych chi a beth rydych chi'n ei wneud mewn termau syml. Ysgrifennwch, yna mireiniwch y testun. Yna ei symleiddio eto.

## Prawfddarllenwch eich copi

Peidiwch ag anghofio gwirio a phrawfddarllen eich copi cyn ei gyflwyno. Gallwch ddefnyddio gwasanaethau gwirio gramadeg a sillafu ar-lein i helpu.

## Pa mor hir ddylai'r bywgraffiad fod?

Gall bywgraffiadau amrywio o ran hyd yn dibynnu ar eu pwrpas (e.e. cyflwyniad ar gyfer asiant neu gyhoeddwr, pecyn i'r wasg ar gyfer datganiad i'r wasg ac ati). Ar

gyfer Rhestr Awduron Cymru, rydym yn argymell **200 – 300 o eiriau.** Mae'r darllenydd eisiau ciplun ohonoch chi a'ch gwaith.

## Beth i'w gynnwys

I ddechrau, ysgrifennwch y ffeithiau allweddol amdanoch chi eich hun fel awdur. Dyma bethau hanfodol i'w cyfleu i'r rhai nad ydyn nhw'n eich adnabod. Dechreuwch gyda'ch enw, ble rydych chi wedi'ch lleoli (byddwch mor benodol â sy'n gyfforddus – wele adran **Cynnwys gwybodaeth rydych chi'n gyfforddus i'w rannu** isod), a'ch prif faes arbenigedd (e.e. barddoniaeth, ffuglen, ffeithiol greadigol, ysgrifennu i blant a phobl ifanc).

## Gwobrau a Dyfarniadau

Mae'n bwysig cynnwys gwybodaeth am unrhyw wobrau rydych chi wedi'u hennill, a rhestrau hirion a byrion yr ydych wedi eu cyrraedd. Rhestrwch gyhoeddiadau, prosiectau, preswylfeydd, neu weithdai creadigol rydych chi wedi'u cynnal neu y gallwch chi eu cynnig, ac unrhyw beth rydych chi wedi bod yn ei wneud y gallai darllenwyr, cyhoeddwyr neu drefnwyr digwyddiadau fod â diddordeb ynddo. e.e. os cafodd unrhyw un o'ch llyfrau eu rhoi ar y rhestr fer neu os enillon nhw Wobr Llyfr y Flwyddyn.

Os ydych chi'n awdur ar ddechrau eich gyrfa fel awdur, dylech chi gynnwys eich deunydd cyhoeddedig mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn, a allai fod yn waith sydd wedi ymddangos mewn cylchgronau neu'n gyhoeddiadau hyd pamffled. Gallech chi hefyd gynnwys gwybodaeth am eich gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Ni fydd pob bywgraffiad awdur yr un peth. Bydd y cyfuniad o elfennau sy'n eich gwneud chi'r awdur ydych chi yn unigryw i chi. Dyna'r stori y bydd darllenydd, cyhoeddwr, golygydd neu drefnydd digwyddiadau eisiau ei darllen.

## Cynnwys gwybodaeth rydych chi'n gyfforddus i'w rannu

Yn y naratif yn eich bywgraffiad, gallwch benderfynu pa mor benodol neu amwys yr hoffech chi fod. Mae tagiau ardal ranbarthol ar bob proffil i helpu ysgolion, llyfrgelloedd, sefydliadau celfyddydol a grwpiau cymunedol sy'n chwilio am awduron yn eu hardal leol, i'w comisiynu ar gyfer digwyddiadau neu weithdai ysgrifennu creadigol. Mae rhwydd hynt i chi benderfynu a hoffech chi ddatgelu mwy yn y naratif e.e. nodi y dref neu'r sir lle rydych yn byw.

Enghreifftiau o'r mwyaf penodol i'r mwyaf amwys:
'Mae hi'n byw yng Nghaerfyrddin gyda'i phartner a'i phlant.'
'Mae hi'n byw yn Sir Gâr gyda'i theulu'.
'Mae hi'n byw yng ngorllewin Cymru gyda'i theulu.'

## Diweddarwch eich proffil yn rheolaidd

Ceisiwch beidio â defnyddio ymadroddion a allai ddyddio yn gyflym. Er enghraifft, yn lle dweud "Yn 2025 bu'n tiwtora cwrs ffuglen yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd", byddai'n well dweud, "Yn ddiweddar bu'n tiwtora cwrs ffuglen yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd".

Os ydych chi'n cynnwys cyhoeddiadau sydd i'w cyhoeddi yn y dyfodol neu weithgarwch cyfredol, cofiwch ddiweddaru eich proffil ar ôl i'ch llyfr gael ei gyhoeddi, gan nodi'r teitl, y cyhoeddwr ac ati e.e. Os ydych chi'n nodi "Ar hyn o bryd mae'n awdur preswyl yn….", cofiwch ddiweddaru eich proffil wedyn.

Enghraifft: `Roedd John yn awdur preswyl yn [enw lleoliad] yn ystod 2024-2025` yn lle `Mae John yn awdur preswyl ar hyn o bryd.`

## Tagiau Rhestr Awduron Cymru

Gellir hidlo Rhestr Awduron Cymru yn ôl enw, genre, rhanbarth daearyddol, neu iaith. Cyn cyflwyno eich proffil, cofiwch dicio unrhyw dagiau perthnasol ar gyfer y genres rydych yn ysgrifennu ynddynt.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau eich bod wedi dewis y lleoliad perthnasol (e.e. gogledd-ddwyrain), fel y gall defnyddwyr sy'n chwilio am awduron mewn ardal benodol o Gymru ddod o hyd i chi.

Mae hyn yn galluogi defnyddwyr fel trefnwyr digwyddiadau, trefnwyr gwyliau llenyddol, a chyhoeddwyr sy'n chwilio yn ôl categori i weld proffiliau dethol sy'n cynnwys y tag perthnasol. E.e., os yw defnyddiwr yn chwilio am `ffuglen' dim ond proffiliau awduron sydd wedi ticio'r categori hwn fydd yn ymddangos yn y canlyniadau chwilio.

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn ychwanegu tagiau perthnasol ar gyfer awduron rydym wedi gweithio gyda hwy, e.e. ar y rhestr fer ar gyfer Llyfr y Flwyddyn, Mentor Llenyddiaeth Cymru, Tiwtor Cwrs Tŷ Newydd,  Cyfranogwyr Rhaglen Cynrychioli Cymru ayyb.

## Dolenni i'ch proffiliau cyfryngau cymdeithasol

Gallwch ychwanegu dolenni i'ch gwefan, proffil Instagram, Facebook neu LinkedIn.

## Llun proffil

Rydym yn annog awduron i gynnwys llun cydraniad uchel ("hi-res") diweddar ohonynt eu hunain y gellir ei ychwanegu at y proffil. Yn fras, dylai fod yn fformat `landscape' h.y. yn fwy llydan nac yw'n dal, ac yn llai na 1MB mewn maint.

Gallai ansawdd delwedd wneud gwahaniaeth; ystyriwch fuddsoddi mewn llun proffil proffesiynol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch creu eich proffil, cysylltwch â ni ar post@llenyddiaethcymru.org

*Crëwyd yr adnodd hwn gan **Llenyddiaeth Cymru***